



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Ein cyf / Our ref: PROW / 250915
Eich cyf/Your ref:

Glan Teifi
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 7BY

Rhian Jardine
Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy / [Head of Sustainable Communities](#)
Cyfoeth Naturiol Cymru / [Natural Resources Wales](#)
Ffôn / Phone 0300 065 3659 / 07468 742546
E-bost/email: rhian.jardine@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

25 Medi 2015

Annwyl Sue

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i Ganllawiau i Awdurdodau Lleol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Diolch am roi cyfle i Gyfoeth Naturiol Cymru ymateb i'r ymgynghoriad hwn a gweler ein ffurflen ymateb amgaeedig wedi ei chwblhau.

Caiff polisi Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r materion a gynhwysir yn y canllawiau drafft ei esbonio yn ein Cynllun Galluogi Hamdden a Mynediad sy'n nodi sut rydym yn ceisio:

- Rheoli a hwyluso'r defnydd o'n hystâd ar gyfer hamdden a mynediad yn yr awyr agored
- Galluogi eraill a gweithio gyda nhw i hwyluso a hyrwyddo hamdden a mynediad ledled Cymru, gan adlewyrchu anghenion ein marchnadoedd targed a'n cynulleidfa

Rydym yn nodi eich bod wedi gofyn i'n hymatebion adlewyrchu deddfwriaeth a pholisi presennol ac fel y cyfryw nid ydym wedi awgrymu meysydd ble y gellir gwneud gwelliannau deddfwriaethol yn y dyfodol. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn ein hymateb i Bapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru: *'Gwella cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol'*.

Mae cydweithwyr o nifer o wahanol dimau wedi cyfrannu at yr ymateb hwn ac rydym yn ceisio canolbwyntio ar y prif bwyntiau mwyaf perthnasol i Gyfoeth Naturiol Cymru, gyda'r disgwyl mai ymarferwyr awdurdod lleol sydd yn lle gorau i ymateb i lawer o'r manylion technegol. Fodd bynnag, wrth adolygu'r canllawiau gwelsom nifer o bwyntiau penodol yr oeddem yn teimlo y byddai'n elwa ar gael eu hystyried ymhellach ac rydym yn hyderus y bydd y sylwadau manwl hyn o gymorth.

Rydym hefyd wedi nodi rhai materion allweddol, o bwysigrwydd arbennig i Gyfoeth Naturiol Cymru, y gellid mynd i'r afael â nhw mewn ffordd wahanol yn y Canllawiau diwygiedig:

Roeddem yn teimlo efallai y byddai o gymorth i gynnwys gwybodaeth am sut mae'r gwahanol gyrrff cyhoeddus yng Nghymru'n cyfrannu at reoli hawliau tramwy cyhoeddus. Roeddem yn teimlo y gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol o ystyried mai yn lled ddiweddar y cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei sefydlu gan integreiddio cylchoedd gorchwyl ei dri chorff etifeddol.


Roeddem yn teimlo y dylid rhoi pwyslais llawer cryfach ar rôl y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy wrth lunio a chyfeirio agweddau awdurdodau lleol tuag at reoli eu rhwydweithiau. Rydym wedi amlygu'r gwaith o ddarparu cymorth i awdurdodau lleol i ddatblygu eu cynlluniau gwella hawliau tramwy eu hunain fel un o'r gweithgareddau bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n canolbwyntio arno dros y pum mlynedd nesaf fel rhan o'n Cynllun Galluogi Hamdden a Mynediad.

Roeddem o'r farn y dylid cynnwys canllawiau mwy manwl ar Lwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru dan yr adran ar lwybrau sy'n cael eu hyrwyddo. Mae'r rhain yn brosiectau mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol arnynt fel partner allweddol.

Ble y cyfeirir at Gyfoeth Naturiol Cymru yn ei rôl fel corff rheoleiddio rydym wedi ceisio darparu rhywfaint o esboniad ond efallai y bydd angen i chi gysylltu ymhellach, ac yn uniongyrchol â'r timau perthnasol wrth ail ddrafftio'r adrannau hynny.

Yn ogystal â'r sylwadau a gynhwysir yn y ffurflen ymateb rydym wedi nodi pwyntiau manwl sy'n ymwneud ag arddull a strwythur. Pe bai'n ddefnyddiol i chi gael adborth o'r natur hon, cysylltwch â Mat Stephens a Carys Drew, y mae eu manylion cyswllt ar y ffurflen ymateb.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Rhian Jardine', with a horizontal line underneath.

Rhian Jardine

[Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy](#)

Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

Eich manylion:	
Enw:	Carys Drew a Mat Stephens ar ran Rhian Jardine
Sefydliad*:	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfeiriad e-bost:	carys.drew@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk Mat.stephens@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

* Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad rhowch fanylion y sefydliad os gwelwch yn dda. Pam rydym ni'n gofyn am yr wybodaeth hon? Rhag ofn bod gennym unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch sylwadau, byddai'n ddefnyddiol pe bai gennym eich manylion er mwyn i ni gysylltu â chi i'w trafod ymhellach. Ni fydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru nac i unrhyw drydydd parti arall.

Sylwadau Penodol	
** Nodwch pa baragraff neu baragraffau yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn deall yn union pa newidiadau yr hoffech eu gweld.	
Rhif paragraff **	Sylw:
1.6	Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ymwneud yn benodol â cherdded a beicio, gan gynnwys mynediad i bobl anabl ac nid yw'n berthnasol yn ystyr mwy cyffredinol 'teithio difodur'. Rydym hefyd yn teimlo y dylid cynnwys mwy o wybodaeth am sut y gall Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ddylanwadu ar reolaeth hawliau tramwy cyhoeddus. Rydym yn ystyried y gellid gwella'r adran hon ymhellach trwy ei ehangu i gynnwys deddfwriaeth Gymreig arall berthnasol fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a rhywfaint o gyfeiriad at ddeddfwriaeth arfaethedig berthnasol fel Deddf Amgylchedd (Cymru).
1.8	Awgrymwn ail eirio i nodi bod hwn yn ymwneud â chyllid ar gyfer dyletswyddau statudol presennol.
1.10	Nid yw'r paragraff hwn yn dangos yn ddigon amlwg mai'r awdurdodau cynllunio lleol yw'r awdurdodau cynllunio ar gyfer eu hardaloedd hefyd.
2	Teimlwn nad oes strwythur i'r adran hon ar hyn o bryd ac nid yw'n rhoi dechrau gyda chanolbwynt i'r ddogfen. Awgrymwn rannu hyn yn ddau ran

	– 'Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd' a 'Blaenoriaethu a Rheoli'r Rhwydwaith'.
2.1.	Dylai hwn gynnwys cyfeiriad at wneud gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog.
2.2	Ychwanegu 'defnydd o dechnoleg symudol, darparu llwybrau GPX' at y rhestr o'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd.
2.3	Mae angen datblygiad pellach sylweddol ar yr adran hon yng ngoleuni'r pwysigrwydd, natur statudol a'r arwyddocâd mae Llywodraeth Cymru wedi eu gosod ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy fel y dull troswaol ar gyfer rheoli'r rhwydwaith.
2.4	Teimlwn nad yw'r ymadrodd ' <i>mynediad cyhoeddus at dir at unrhyw ddiben cyfreithiol a gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored</i> ' yn adlewyrchu geiriad y Ddeddf mewn perthynas â: chwmpas y Fforymau Mynediad Lleol - awgrymwn ail-eirio.
2.5	Awgrymwn ail-eirio hwn i bwysleisio'r angen i gyflawni cydbwysedd o ran aelodaeth
2.6	Mae angen i Fforymau Mynediad Lleol gadw eu swyddogaeth strategol. Dylid strwythuro'r grwpiau cyswllt a nodir yma o amgylch y Fforwm Mynediad Lleol a'i is-grwpiau cysylltiedig. Gallai grwpiau cyswllt y tu allan i'r Fforymau Mynediad Lleol fod yn wrthgynhyrchiol ac fe allant ddibrisio swyddogaeth y Fforymau statudol.
2.7	Cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth parcio ac ati ochr yn ochr â 'thrafnidiaeth gyhoeddus'
2.7	Dan 'gwybodaeth' cynnwys y canlynol: gwybodaeth am ba lwybrau neu rannau o lwybrau sy'n hygyrch; lefelau o anhawster, arwyneb, rhwystrau a llethrau.
2.9	Awgrymu ychwanegu argymhelliad i fanteisio ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth e.e. gyda'r sector gwirfoddol a chynnwys Fforymau Mynediad Lleol
2.9	Ymrwymiad i gynnal a chadw yn y dyfodol – a lle'n berthnasol i gwrdd â safonau ansawdd (e.e. Llwybr Arfordir Cymru, Llwybrau Cenedlaethol, llwybrau eraill sy'n cael eu hyrwyddo - gweler hepgoriadau isod).
2.9	Dylid manteisio ar gyfleoedd i ddarparu a hyrwyddo llwybrau sy'n addas ar gyfer gweithgareddau ar wahân i gerdded.
2.10	Rydym yn deall nad yw'r Arolygiaeth Rheilffordd bellach yn rhan o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (ers 2006?). Hefyd, oherwydd bod y canllawiau'n awgrymu eu cynnwys, sicrhau ymgynghoriad â nhw ar y cynhwysiad hwn.
2.12	Cynnwys cyfeiriad at symbol mesen y Llwybr Cenedlaethol (nod masnach) a dilyn unrhyw hierarchaeth cyfeirbwyntio derbyniol (h.y. Mae Llwybr Cenedlaethol yn cael blaenoriaeth ar lwybrau sy'n cael eu hyrwyddo'n fwy lleol er mwyn osgoi 'annibendod').

2.13	Nid yw datganiadau tirfeddianwyr dan adran 31(6) am 'hawliau presennol' ond maent yn ddatganiad o ddiffyg bwriad i gyflwyno (ac i rai graddau yn ddull ar gyfer cyflwyno llwybrau) Noder nad oes unrhyw arweiniad penodol ar adran 31(6) yn y ddogfen hon (gweler hepgoriadau)
2.18-2.20	Rydym yn ystyried y byddai'r adran hon wedi ei lleoli'n fwy priodol dan adran 5 'Map a Datganiad Diffiniol' ac y dylid cynnwys arweiniad penodol ar ddarparu'r copi gweithio ar-lein i'r cyhoedd.
2.21-2.22	Ystyried rhannu a chynnwys hyn dan adrannau eraill e.e. Map Diffiniol a Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy
2.23-2.28	Ystyried cynnwys mwy o fanyldeb ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan mai dim ond un llinell gyffredinol iawn sy'n cyfeirio ati ar hyn o bryd) ac ystyried anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig ac adran fwy penodol ar ystyriaethau cydraddoldeb wrth awdurdodi cyfyngiadau.
2.26	Mae'r ddau hyn yn hen gyhoeddiadau (cyn Deddf Cydraddoldeb 2010). A ddylid eu cynnwys?
2.27	Dylid ail-eirio'r awgrym y dylai'r dogfennau rhestredig a BS5709 <i>"roi digon o wybodaeth i awdurdodau lleol am sut i asesu anghenion pobl â phroblemau symudedd."</i> Mewn llawer o amgylchiadau byddai'n briodol i geisio cyngor gan ddefnyddwyr posibl wrth gynllunio mynediad penodol.
2.28	Awgrymir y dylid rhannu hwn a'i gynnwys rhywle arall a'i ddiwygio er mwyn ystyried gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb.
2.29-2.31	Mae angen i hyn gyfeirio at Gynlluniau Iaith Gymraeg, yn arbennig rhai'r awdurdodau a'u partneriaid yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.
2.31	Awgrymw'n y dylid ymestyn y frawddeg olaf i gynnwys yr holl arwyddion.
2.36	Awgrymw'n y dylid rhestru Madfall y Twyni hefyd fel rhywogaeth a ystyrir yn aml.
2.39	Nid yw'n ofynnol naill ai yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad na Rheoliadau Cynefinoedd bod y rhai sy'n ceisio trwydded yn cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru am gyngor pan fyddant yn gwneud cais. Er bod y rhai sy'n ceisio trwydded yn ymgynghori â staff rhanbarthol Cyfoeth Naturiol Cymru am rywogaethau mewn perthynas â phrosiectau seilwaith mawr cyn cyflwyno cais am drwydded, os yw'r paragraff hwn i gael ei gynnwys rhaid iddo nodi'n fwy manwl lle mae ymgynghoriad o'r fath ar gael o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw Tîm Gwarchod Rhywogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru'n rhoi cyngor cyn cais. Os cedwir yr adran hon argymhelliwn ymhellach bod y geiriad yn cyfeirio at 'rywogaethau a warchodir' yn hytrach na 'bywyd gwyllt'. Gweler hepgorion isod hefyd.
2.43	Dylai'r cyfeiriad at Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 28H ddweud 28H Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
2.44	Dylai gyfeirio at wrthod "cydsyniad" yn hytrach na gwrthod "cais". Rydym yn teimlo y gallai defnyddio'r gair "gwreiddiol" yn y rhestr pwyntiau bwled fod yn gamarweiniol.

2.48-2.49	Amheuaeth ynghylch a yw'n angenrheidiol ar gyfer <i>pob</i> gwaith megis; cyfeirbwyntio, ail osod clicied ar giât sydd eisoes yn bodoli, tacluso canghennau crog ac ati. Awgrymw'n eich bod yn trafod yr union eiriad gyda CADW. Mae geiriad adran 2 o Ddeddf Ardaloedd Archeolegol 1979 yn awgrymu nad yw'r gofyniad mor gyffredinol â'r hyn a awgrymir yma.
2.52	Mae cwmpas ar gyfer ehangu'r adran ar wirfoddolwyr a'i chynnwys o fewn adran newydd 'Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd'.
3	Mae nifer o gamgymeriadau yn adran 3 y mae rhai ohonynt yn cael eu nodi isod. Rydym yn teimlo bod angen adolygu'r adran hon.
3.1	Gellid darparu mwy o wybodaeth i helpu awdurdodau i benderfynu pa hawliau tramwy y gellir eu cynnal a chadw ar bwrs y cyhoedd. Byddai enghreifftiau o lwybrau na ellir eu cynnal na'u cadw fel rheol yn ddefnyddiol.
3.3	Awgrymw'n eich bod yn cyfeirio at safonau a gynhyrchir gan grwpiau defnyddwyr sydd ar gael fel y rhai a gynhyrchir gan Gymdeithas Ceffylau Prydain.
3.4	Efallai bod y rhagdybiaeth yn berthnasol yn y rhan fwyaf o achosion ond mae eithriadau sylweddol. Yn bwysig, dim ond mewn perthynas â dadansoddiad Deddf 1980 mae adran 328 yn berthnasol. Ni wnaeth achosi unrhyw newidiadau pellach i'r gyfraith mewn perthynas â chynnal a chadw strwythurau priffordd.
3.6	Awgrymir y gall strwythurau fod yn gyfreithiol o ganlyniad i ddarpariaethau ar wahân i'r rhai a restrir; megis adran 66 Deddf Priffyrdd 1980
3.7	Mae lled lleiaf yn cyfeirio at fesuriadau mewnol o bostyn i bostyn nad ydynt efallai'r un lled â'r giât ei hun, yn dibynnu ar sut caiff y giât ei gosod.
3.13	Nid yw'r pŵer yn cynnwys amnewid yn unig. Mae hefyd yn cynnwys gwella'r strwythur presennol.
3.14	Awgrymw'n eich bod yn meddalau'r pedwerydd pwynt bwled ychydig. O ystyried mai cytundeb yw hwn i wella rhywbeth sydd eisoes yn bodoli'n gyfreithiol, yn hytrach na chais am strwythur newydd, efallai y byddai'n briodol derbyn cyfaddawd nad yw'n berffaith ond sy'n gwella'r strwythur presennol yn sylweddol: h.y. giât mochyn i gymryd lle camfa hyd yn oed lle byddai giât glicied yn ddigonol i gynnal a chadw prawfesur stoc a byddai'n llai cyfyngol i ddefnyddwyr.
3.16	Mae'r adran hon yn anghywir. Yr adran gywir yw adran 263
3.17	Rydym yn teimlo y gellir camddeall yr ymadrodd "fel y cyflwynwyd i'r cyhoedd". Mae'n awgrymu mai dim ond cyfrifoldeb dros gynnal y llwybr i'r un cyflwr ag yr oedd ynddo ar amser ei gyflwyno sydd dan sylw, ac nid dyma'r achos. Mae'r gyfraith yn tybio y gall 'traffig arferol' newid neu ddwysau dros gyfnod o amser ac y bydd y ddyletswydd yn newid gyda hyn: gweler <i>Sharpness New Docks and Gloucester and Birmingham Navigation Company v Att-Gen [1915] A.C.654</i>

3.20	Awgrymw'n ymestyn yr adran hon i ystyried rhywogaethau plâu cynhenid e.e. Llysiau'r Gingroen a phwerau a dyletswyddau y tu hwnt i gyflawni gwaith h.y. lledaeniad rhywogaethau plâu i neu oddi ar dir priffordd.
3.21	Cyfeirio o bosibl at Reoliadau a Chyfeiriadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2002.
3.22, 3.23, 3.24	Byddai geiriad yr adrannau hyn yn well pe bai'n cael ei symleiddio. Yn 3.23 bod yn eglur nad oes angen "cydsyniad" ar gyfer yr angen i ymgynghori cyn cyfeirbwyntio ar hyd llwybr. Nid oes gan y perchennog unrhyw bwer i wrthod oni bai bod y cyfeirbwynt wedi ei ymgysylltu i'w heiddo (megis camfa) Efallai y gellir gwella'r geiriad yn y drafft presennol trwy newid "...wedi ei osod ar ei eiddo ef neu hi" i "...wedi ei ymgysylltu i'w heiddo; megis postyn ffens neu gamfa"
3.24	Ail-eirio'r adran cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig gan fod y term 'cerbydau olwynog' hefyd yn berthnasol i feiciau a cherbydau sy'n cael eu tynnu gan geffyl. Byddem hefyd yn cwestiynu a ddylid cyfeirbwyntio llwybrau eraill h.y. ffyrdd gwledig di-ddosbarth, gyda saethau coch? Nid yw hyn yn cael ei ystyried i fod yn arfer cyffredinol.
3.24	Mae diffyg saethau cyfeirbwyntio safonol yn awgrymu addasrwydd. Nid yw hyn yn berthnasol i gilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig yn unig. Fe all fod yn benodol ar gyfer achosion o gilffyrdd cyfyngedig a gafodd eu hailddosbarthu dan ddarpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.
3.37	Awgrymw'n fod y pennawd yn gamarweiniol. Rydym yn awgrymu y byddai 'darparu mynediad ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol' yn well. Byddai'n well rhoi'r adran hon ar ddiwedd yr adran, ar ôl 3.41, gan ei bod yn ymdrin â mynediad posibl yn y dyfodol.
4.2	Rydym yn teimlo y dylid ond ystyried 'dim camau gorfodi' os nad oes unrhyw drosedd wedi ei chyflawni. Os oes trosedd wedi ei chyflawni disgwylir mai'r ymyriad lleiaf fyddai cynnig cyngor anffurfiol.
4.8-4.12	Nid yw'r adrannau hyn yn rhoi arweiniad penodol ar sut a phryd y gall awdurdodau gyhoeddi hysbysiadau. Byddai manylion pellach ynghylch darpariaethau'n ddefnyddiol. Mae hysbysiadau'n ddull defnyddiol iawn a rhad ar gyfer cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac nid ydynt yn cael eu defnyddio ddigon gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd.
4.22	Mewnosod " <i>cydnabyddedig</i> " ar ôl " <i>brid godro</i> "
4.23	Mae'r adran, fel y mae wedi ei geirio, yn awgrymu bod hyn yn berthnasol i'r holl wartheg, yn hytrach na theirw'n unig. Hefyd, gellir hyd yn oed cadw bridiau godro cydnabyddedig yn gyfreithiol ar hawl tramwy os ydynt dan 10 mis oed; ail-eirio'r frawddeg gyntaf.
4.26	Awgrymw'n eich bod yn cynnwys paragraff ynglŷn â pha mor gadarnhaol yw bod yn berchen ar gŵn o ran annog ffyrdd egniol o fyw. Mae Ffeithiau Allweddol ar gyfer Polisi ac Arfer Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2013 yn awgrymu y dylem: " <i>Ddarparu ar gyfer pobl sydd â chŵn: newid ein hagwedd o 'broblem i'w rheoli' i 'gyfle i annog'</i> "

	<p>(i) darparu gwybodaeth am fannau 'addas i gŵn i ymweld â nhw (ii) darparu cyfleusterau addas ac arwyddion 'croeso i gŵn'. https://naturalresources.wales/media/4264/arolwg-hamdden-awyr-agored-cymru-ffeithiau-allweddol-ar-gyfer-polisi-ac-ymarfer.pdf</p> <p>Dylid ystyried deddfwriaeth bresennol yn fwy gofalus ac yn fwy cynhwysfawr oherwydd nid yw'r geiriad presennol yn gywir. Mae'r gofyniad statudol i gadw cŵn dan 'reolaeth dynn' yn gyfyngedig i fannau caeedig gyda defaid. Teimlwn y dylai'r adran hon gyfeirio at yr holl ddarpariaethau perthnasol eraill o fewn Deddf Anifeiliaid 1971; er enghraifft adran 3 ac adran 9.</p> <p>Teimlwn y gellid cynnwys paragraff yn ymwneud â chyfleu negeseuon yn glir i'r cyhoedd, cyfeirio at y cod cerdded cŵn ac awgrymwn eich bod yn mabwysiadu'r term 'rheolaeth effeithiol', sydd wedi ei ddiffinio'n well, ar gyfer cyfathrebu cyhoeddus. Fodd bynnag mae'n bwysig bod yn gywir wrth gyfeirio at ddarparwyr statudol.</p>
4.38-4.39	Dylid rhoi canllawiau mwy manwl i awdurdodau ar sut i ymateb i hysbysiadau adran 130A.
4.48	Dylid nodi'n eglur nad yw'r lledau hyn ond yn berthnasol i ailsefydlu llwybrau ar ôl aredig ac ati ac nad ydynt yn lledau cyffredinol i'w defnyddio mewn achosion eraill. Mae'n gamdybiaeth gyffredin ymysg tîrfeddianwyr, y cyhoedd ac ymarferwyr achlysurol.
5.1	Awgrymwn y dylid rhoi esboniad o beth yn union yw ystyr "dyddiad perthnasol".
5.20	Roedd rhywfaint o bryder ynghylch yr ymadrodd " <i>Mae'r prawf hefyd yn berthnasol i'w gymeriad a'i fath ac a yw'n fwy addas i'w ddefnyddio gan gerddwyr a marchogion na cherbydau</i> ". Mae'n awgrymu bod prawf addasrwydd yn bodoli sy'n rhoi disgrisiwn i awdurdodau gofnodi llwybr fel cilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig trwy Orchymyn Addasu Mapiau Diffiniol. Tybir bod hyn mewn gwirionedd yn cyfeirio at a yw llwybr yn bodloni'r diffiniad o gilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig o'i gyferbynnu â ffordd gyffredin, yn hytrach nag unrhyw ystyriaeth ei fod yn fwy addas i'w defnyddio fel llwybr troed neu lwybr ceffylau, ac felly gellir ei gofnodi ar y statws hwnnw er gwaethaf y dystiolaeth. Teimlwyd y gellid bod wedi gwneud hyn yn fwy eglur.
5.59	Mae cyfraith achos yn bodoli sy'n ymwneud ag ar ba ffurf y dylid nodi'r Rhestr Strydoedd. Gweler: <i>Fortune, Ayres & Heselden v. Wiltshire Council and Taylor Wimpey (2010)</i>
6.28	Awgrymwn eich bod yn dileu'r gair "cyfredol" o'r frawddeg derfynol. Nid yw hwn yn cael ei ddefnyddio yn y ddeddfwriaeth ac fe allai fod yn gamarweiniol. Er ei bod yn ofynnol bod Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy'n cael eu hadolygu a'u diwygio o fewn 10 mlynedd, nid oes dim

	yn nodi, os yw awdurdod yn methu â gwneud hyn, y bydd eu Cynllun yn peidio â bod yn gynllun dilys at ddibenion y ddarpariaeth hon.
6.36	Awgrymw'n eich bod yn cynnwys canllawiau ar y prawf perchnogaeth safonol y dylai awdurdodau ofyn amdano cyn cytuno i ychwanegu Hawl Tramwy Cyhoeddus.
6.134	Awgrymir cynnwys canllawiau ar ymdrin â gwrthwynebiadau anhysbys a 'wneir yn rheolaidd' fel arall.

Ychwanegwch fwy o resi yn ôl y gofyn.

Sylwadau Cyffredinol	
Eglurder - ydy'r ddogfen yn hawdd i'w deall?	Ydy, ond gyda rhai eithriadau
Ydy'r ddogfen yn addas ar gyfer y gynulleidfa a fwriedir h.y. rheolwyr y rhwydwaith Hawliau Tramwy?	Ydy, ond gyda rhai eithriadau.
Sut y gellid gwella'r ddogfen er mwyn ei gwneud yn haws i'w deall?	
<p>Lle mae'r testun yn cyfeirio awdurdodau priffyrdd at bartïon allanol e.e. Yr Arolygiaeth Rheilffyrdd, Cyfoeth Naturiol Cymru ac ati dylid gwneud ymholiadau penodol i gael cadarnhad gan y corff hwnnw o ran cynhwysiant a manylion perthnasol. Yn arbennig lle mae'r canllawiau'n gofyn bod awdurdodau'n cysylltu â nhw dan amgylchiadau penodol.</p> <p>Ymddengys mewn rhai manau nad yw'r ddogfen wedi cael ei hysgrifennu o safbwynt awdurdod lleol.</p> <p>Dylai'r ddogfen fod yn gyson wrth gyfeirio at ddarpariaethau statudol a chyfraith achos perthnasol. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn caniatáu i ddarllenwyr gael esboniadau'n rhwydd neu ganfod lle y gallai newidiadau fod wedi eu gwneud i ddeddfwriaeth ers cyhoeddi'r canllawiau. Ar hyn o bryd mae rhannau o'r ddogfen sy'n cyfeirio at ofynion penodol ac ati heb gynnwys y ddarpariaeth/achos statudol perthnasol, ac eraill lle y cyfeirir at adrannau o Ddeddfau heb esboniad o'r hyn ydynt (e.e. paragraff 6.50). Mae rhai cyfeiriadau at ddarpariaethau penodol yn nodi'r Ddeddf ond nid yr adran.</p> <p>Wrth gyfeirio at rannau eraill o'r ddogfen awgrymw'n y dylai'r ddogfen osgoi defnyddio teitlau'r penawdau oherwydd fe allai ymddangos ei fod yn cyfeirio at ddogfen arall. Dylid cyfeirio darllenwyr at yr adran berthnasol trwy ddefnyddio'r rhifau paragraff perthnasol.</p>	

Hepgoriadau - oes unrhyw beth ar goll o'r ddogfen rydych yn credu y dylid ei gynnwys?	Oes.
Os ydych wedi ateb Oes, rhowch fanylion yr hyn rydych yn credu y dylid ei gynnwys.	
<p>Ystyried cynnwys adran, dan 'Cyflwyniad' sy'n cynnig amlinelliad cryno o swyddogaethau cyrff cyhoeddus allweddol mewn perthynas â rheoli hawliau tramwy cyhoeddus: Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, gweinidogion Cymru ac ati.</p> <p>Er y cyfeirir at Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn y cyflwyniad (paragraff 1.6) ni cheir mwy o gyfarwyddyd manwl am sut y gallai effeithio ar reoli'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, na gwybodaeth am sut y gellir canfod gwybodaeth bellach. O ystyried ei bod yn debygol bod gan hawliau tramwy cyhoeddus y potensial i ddod yn Llwybrau Teithio Llesol, neu i fod yn gysylltiedig â nhw, rydym yn teimlo y byddai awdurdodau'n gwerthfawrogi canllawiau pellach yn y ddogfen hon. Yn yr un modd bydd gan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 oblygiadau ar gyfer rheoli a blaenoriaethu hawliau tramwy cyhoeddus a dylid ymdrin â hyn.</p> <p>Dylid cynnwys Llwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru dan yr aran hyrwyddo. Dylai hwn gynnwys gwybodaeth am Lwybrau Pellter Hir a'r darpariaethau statudol cysylltiedig yn ogystal â threfniadau rheoli (2.7).</p> <p>Dylid cynnwys gofynion ynghylch ymdrin ag adneuon a wneir dan Adran 31 (6) Deddf Priffyrdd 1980 yn y canllawiau hyn. Mae'n bwysig nad yw'r canllawiau'n awgrymu y dylai hawliau tramwy diffiniol presennol gael eu nodi ar fapiau gan dirfeddianwyr gan nad yw hyn yn ofyniad statudol, ac mae'n gadael tirfeddianwyr mewn perygl o gyflwyno hawliau newydd yn ddiofal ac nid oes diben defnyddiol iddo. Mae hwn yn gamddealltwriaeth gyffredin a dylai'r canllawiau roi sylw iddi.</p> <p>Er y cyfeirir ato'n fyrhoedlog nid oes unrhyw gyfarwyddyd ar ymdrin â hysbysiadau a gyhoeddir ar yr awdurdod dan Adran 56 Deddf Priffyrdd 1980. Dylid cynnwys hyn oherwydd gall fod yn broblem sylweddol i awdurdodau.</p> <p>Dylai adran 3 y ddogfen gynnwys mwy o fanylion am bennu pa briffyrdd y gellir, neu na ellir, eu cynnal a chadw ar bwrs y cyhoedd.</p> <p>Gellid ystyried cynnwys adran yn ymdrin ag argyfyngau neu broblemau bioddiogelwch (fel achosion o Glwy'r Traed a'r Genau).</p> <p>Byddai o gymorth i gynnwys goblygiadau cyfreithiol erydu arfordirol a glannau afon lle mae hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu difrodi neu eu difa. Dylai hyn gynnwys y gwahaniaethau cyfreithiol rhwng colli hawliau tramwy cyhoeddus ar ben clogwyn neu ar lan afon a'r rhai sy'n cael eu cario gan strwythurau artiffisial fel waliau môr.</p>	

Dylai'r ddogfen hon roi canllawiau ar y sefyllfa gyfreithiol bresennol mewn perthynas â 2026.

Byddai'r ddogfen hon yn elwa ar gael mwy o wybodaeth ar aiddosbarthu Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus yn arbennig mewn perthynas â dosbarthu hysbysiadau heb eu clirio a wnaed dan ddeddfwriaeth a ddiddymwyd.

Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i fynediad agored; yn arbennig i bwerau i greu hawl tramwy cyhoeddus i gysylltu â mynediad at arwynebedd tiroedd.

Awgrymwyd y gallai canllawiau'n ymwneud â'r gyfraith ar hedfan dronau o hawliau tramwy cyhoeddus, neu drostynt, fod yn ddefnyddiol.

Oes unrhyw beth yn y ddogfen na ddylid ei gynnwys?

Nac oes

Os ydych wedi ateb Oes, rhowch fanylion yr hyn rydych yn credu y dylid ei dynnu o'r ddogfen. A wnewch chi gynnwys rhifau paragraffau.

Er y ceir rhai meysydd o ailadrodd.

Defnyddiwch y bwlch isod i ddarparu unrhyw sylwadau cyffredinol eraill sydd gennych am y ddogfen

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu cynhyrchu canllawiau cyfredol i awdurdodau lleol ac yn teimlo y gall fod o gymorth gwirioneddol i gynorthwyo swyddogion, tîrfeddianwyr a'r cyhoedd i ddeall y fframwaith deddfwriaethol perthnasol yng Nghymru ac i arwain ymarferwyr at arfer gorau.

Teimwn fod lefel y manylder yn briodol ar y cyfan ond rydym yn pryderu rhywfaint am gynnwys sy'n ymddangos i fod yn anghywir neu wedi dyddio yn yr ymgynghoriad drafft. Ymddengys fod llawer o'r cynnwys, yn ddealladwy, wedi cael ei gymryd o ddogfennau cynharach y bydd hon yn eu disodli ond rydym yn teimlo nad yw wedi cael ei integreiddio'n llawn i arddull na fformat cyson. Byddem yn cymell bod angen adolygu cynnwys dogfennau canllaw cynharach hyd yn oed ar gyfer cywirdeb cyn eu cymhathu. Awgrymwn y dylid adolygu'r ddogfen, fesul adran, i gadarnhau bod yr holl gynnwys yn gywir a chyfredol a bod y geiriad yn fanwl gywir ac yn cael ei gyflwyno'n gyson.

Gwaelod y Ffurflen

Diolch yn fawr am eich ymateb